

79)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Yr Hen Gapel,Pencader Mehefin 18ed 2018— 8yh

---

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:Annette Davies(cadeirydd),B.Cobain,Arwel Davies,V.Davies, M.Griffiths,Y.Griffiths,G. Jones,H.Lewis,D.Davies.C.Sir L.Evans

Clerc:Anita Evans, Heddlu:PCSO Shanice Thomas;Ymddiheuriadau:M.Evans; Absennol:E.Jones

---

1)Croesawodd Annette Davies(cadeirydd)bawb i'r cyfarfod.Croesawodd G.Jones nôl ar ol ei lawdriniaeth,a llongyfarchwyd Arwel Davies ar enedigaeth mab bach.

2)Roedd PCSO Shanice Thomas yn bresennol,a braf oedd gweld presenoldeb yr Heddlu.Cafwyd trafodaeth fuddiol,ac atebodd nifer o gwestiynnau.Yn anffodus mae gang yn dwyn sgrap wedi bod ar hewl Dolgran;tua 8 o gŵn yn crwydro'n rhydd ar hewl Glantweli Fach;car yn gyrru'n beryglus iawn ac yn llawer rhy gyflym ym mhentre Pencader,a tuag at bentre Dolgran.Diolchwyd i'r swyddog cyn gadael.

3)Doedd dim datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr.

4)Cafwyd cofnodion mis Mai yn gywir—B.Cobain yn cynnig,a V.Davies yn eilio.

5)Materion yn codi:

a)Cyfleusterau Alltwalis: Rhys Davies wedi gadael neges ffôn i ddweud fod rhai pethau wedi eu gwella ar y safle,rhai eto i'w gwneud—ac fe fydd yn cysylltu ar ôl ei wyliau.

b)Llwybrau—penderfynnwyd gofyn am fapiau oddiwrth yr adran.

c)Cornel Chwarae—newidiwyd ychydig ar y gwaith i'w wneud ar y wal.

ch)Audit—dywedodd y Clerc fod y gwaith papur wedi mynd at Lyn Evans(cyfrifydd)-a diolchodd i V.Davies,ac M.Evans am dynnu lluniau o'r ddogfen hawliau etholwyr mewn 2 hysbysfwrdd.

d)Comisiynydd yr Heddlu—mewn ateb i'n cwyn fod neb o'r Heddlu'n dod i'n cyfarfodydd,rhodddwyd y rheswm fod prinder staff,ac addawodd gwelliant yn y dyfodol.

---

6)Cyfrifon—cafwyd y fantolen yn gywir:M.Griffiths yn cynnig,a B.Cobain yn eilio.

Biliau l'w talu:cyflogau £1,422.46;garej W.Corner--£75.22;T.L,Thomas(paent l'r seddau)£80.22;D.J.Computing-£40;SCL(domain)--£72.00;M.Griffiths(teithio)-£13.50.Pasiwyd eu talu—Y.Griffiths yn cynnig,a B.Cobain yn eilio.

Dywedodd y Clerc ei bod wedi hawlio £1,775.23 nôl o TAW am 2017-18.

---

7)Materion cynllunio:wedi eu rhannu drwy e-bost;dim gwrthwynebiad.

a)W/37323—Wern Pencader—amrywiaeth amod—i Seren Renewables

b)Sychpant—datblygiad coedwigaeth.

80)Gohebiaeth:C.Sir Gar:

a)Cynllun Datblygu Lleol—dyddiad cau wedi ymestyn i Awst 29ain.

b)C.Sir am fapio tir ac eiddo sy mewn perchnogaeth Cynghorau Cymuned.Anfonir rhestr.

c)Cynhadledd Materion Gwledig—Medi 7fed 9.30—4yp yn yr Halliwell.

ch)Pwyllgor Craffu-angen pynciau i'w trafod;bydd y Cyngor yma'n gofyn am roi cynnal a chadw heolydd ar yr agenda.

d)Rheol claddu/amlosgi unigolyn o dan 18oed—y tâl wedi ei ddiidymu.

dd)Datblygu lleol—gweithdy yn Llandeilo Gorff.30ain 4.45yp.

Eraill:

e)Diolch oddiwrth Sefydliad Aren Cymru.

f)Llythyr oddiwrth S.Jones,Blaenblodau yn holi am wybodaeth,a chymorth ynghlŷn â bedd yn perthyn i'r teulu ym Mynwent y Plwyf,ac sy wedi diriwio'n ei gyflwr,ac yn amgaw lluniau.Bu trafodaeth,a mynegwyd y ffaith mae'r teuluoedd sy'n gyfrifol am y beddau unigol,a bod y Cyngor yn cynnal a chadw'r safle.Anfonir llythyr mewn esboniad.

ff)Meinir Evans(gweinyddydd pwyllgor Statkraft)yn gofyn am aelod arall i gynrychioli'r Cyngor yma.(cyfarfod nesa)

g)H.Lewis wedi anfon e-bost yn gofyn a oes angen caniatad cynllunio ar berchnogion tai pan maent yn ehangu'r mynedfa i'w tai.Addawodd C.S.L.Evans wneud ymholiadau.

Nifer o e-byst wedi eu cylchlythyru e.e.H.Dyfed Powys(ariannu prosiectau pobl ifanc),cyfarfod U.LL.C.yn Hafod a Hendre,Llanelwedd,rhyddid gwytodaeth—dim rhaid i Gynghorau enwebu swyddog.

---

U.F.Arall(gwybodaeth yn unig)

V.Davies—yn gofyn pwy sy bia'r tir o gwmpas ein sedd/cafn blodau ym Mhontweli—gan fod angen ei drasho.

D.Davies—draen o flaen B.H.Wr angen sylw;llawer o sbwriel ar yr hewlydd.

M.Griffiths—draen wedi blocio gyferbyn a Morris Tc./arwydd Llandysul wedi ei fwrw wrth droi am V.Services.

H.Lewis—ar ol problemau camymddwyn yn y Cornel Chwarae—posibilrwydd o wahardd unigolyn --angen ei roi ar agenda mis nesa;eisiau edrych fewn i newid enwau tai o'r Gymraeg i'r Saesneg;mae'r band eang fel petai yn arafu yn ein hardaloedd;sedd ar bwys yr hen ysgol ym Mhencader yn wael;angen labeli rhesi'r Fynwent.

Clerc—gofidio am ganiau a photeli cwrw'n cael eu gosod ar ochr cerrig beddau ym Mynwent y Plwyf;hefyd mae adran yng Nghofrestr y Fynwent o safleoedd wedi eu harchebu(ers blynnyddoedd).Teimlir fod angen mynd drwy'r rhestr,a chysylltu a'r teuluoedd i sicrhau eu bont am gadw'r plot.

Annette Davies—angen trasho'n hewlydd,ac hefyd rownd arwyddion pentrefi/cyflymder;sbwriel ar y llawr ar bwys y biniau ar dir y Siop Sglodion.